



Bwyd a Diod Cymru  
Food & Drink Wales



Hyfforddiant Addasu i Newid  
Hinsawdd a Chydnherthedd

# Modiwl 7: Staff a Darparwyr Gwasanaethau

Ystyried effeithiau newid hinsawdd ar argaeledd a lles staff  
a darparwyr gwasanaethau

# Tabl Cynnwys

|                                                                                   |    |
|-----------------------------------------------------------------------------------|----|
| Cynnwys                                                                           | 2  |
| Byrfoddau                                                                         | 3  |
| Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd                    | 4  |
| Sut i ddefnyddio'r modiwlau hyfforddiant                                          | 5  |
| Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi, a'r canllawiau cam wrth gam | 6  |
| Staff a Darparwyr Gwasanaethau                                                    | 7  |
| Ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd tuag at les ac argaeledd staff               | 7  |
| Nodi staff sy'n fregus o ran yr hinsawdd                                          | 9  |
| Ffocws ar: Gyrru mewn tywydd heriol                                               | 12 |
| Cysylltiadau brys staff                                                           | 13 |
| Arwain Staff                                                                      | 15 |
| Arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu                                     | 15 |
| Cynllun Rhaeadr Gyfathrebu                                                        | 16 |
| Rhestr wirio cynllun rhaeadr gyfathrebu                                           | 17 |
| Hyfforddiant Staff                                                                | 18 |
| Hyfforddi eich staff i greu diwylliant sy'n ymwybodol o'r hinsawdd                | 18 |
| Darparwyr gwasanaethau                                                            | 20 |
| Yn dod nesaf: Modiwl 8 Cwsmeriaid a Defnyddwyr                                    | 21 |

Delwedd y clawr blaen: Amodau gyrru ar yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd ger Glynebwy, wedi'u gwneud yn beryglus gan storm eira yn y gaeaf. Awdur: whitcomberd Ffynhonnell: adobe.stock

Y ddelwedd hon:  
Awdur: Volodymyr / stock.adobe.com

# Byrfodau

Gweler rhestr o fyrfoddau a ddefnyddir yn yr hyfforddiant hwn isod:

|                   |                                                                   |
|-------------------|-------------------------------------------------------------------|
| AHDB              | Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth                    |
| CCACCP            | Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol |
| CCJ               | Dyfarniad Llys Sirol                                              |
| CCRA <sub>s</sub> | Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd                                |
| CMA               | Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y Deyrnas Unedig            |
| COSHH             | Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd                                |
| CO <sub>2</sub>   | Carbon Deuocsid                                                   |
| C3S               | Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus yr Undeb Ewropeaidd          |
| ENA               | Cymdeithas Rhwydwaith Ynni                                        |
| EPD               | Datblygu Cynnyrch Presennol                                       |
| GDPR              | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data                           |
| GHG               | Nwy Tŷ Gwydr                                                      |
| HACCP             | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol                      |
| ICT               | Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu                              |
| INNS              | Rhywogaethau Anfroddorol Ymledol                                  |
| IPCC              | Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd                       |
| ISSB              | Bwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol                           |
| MPRN              | Rhifau Cyfeirnod Pwynt Mesurydd                                   |
| NPD               | Datblygu Cynnyrch Newydd                                          |
| NRW               | Cyfoeth Naturiol Cymru                                            |
| ONS               | Swyddfa Ystadegau Gwladol y Deyrnas Unedig                        |
| RCP <sub>s</sub>  | Llwybrau Crynadau Cynrychioliadol                                 |
| TCFD              | Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd |
| UK SDS            | Safonau Datgelu Cynaliadwyedd y Deyrnas Unedig                    |
| UKCCC             | Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig                          |
| UNEP              | Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig                         |
| WMO               | Sefydliad Meteorolegol y Byd                                      |
| WRAP              | Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau                 |

# Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chyðnerthedd

Nod y modiwlau hyfforddiant yw annog busnesau i ddod yn ymwybodol o'r hinsawdd yn eu gweithrediadau bob dydd trwy ddarparu cymorth ymarferol i feithrin y sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen i ddelio'n llwyddiannus â digwyddiadau anrhagweladwy.

## Dealltwriaeth a gwybodaeth

Mewnwelediad i fuddion addasu i newid hinsawdd i fusnesau

## Offer a thechnegau

Ffyrdd buddiol o ystyried, cynllunio a dogfennu eich gweithgareddau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd

## Ffocws a syniadau newydd

Creu meddylfryd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn eich busnes

## Camau cyflawnadwy

Camau cyflawnadwy ymarferol i feithrin eich cydnerthedd o ran yr hinsawdd

Trwy gydnabod y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil newid hinsawdd a gwneud addasiadau tra ystyriol, gall eich busnes gryfhau ei gydnerthedd i ddelio â siociau o fewn eich cadwyni cyflenwi, lleihau neu osgoi effeithiau negyddol a manteisio ar y cyfleoedd a allai godi.

Dyma'r seithfed o 8 modiwl rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n eu cael yn graff ac yn ddefnyddiol.

# Sut i ddefnyddio'r modiwl hyfforddiant hwn

Cynlluniwyd y modiwlau hyfforddiant fel canllawiau addysgiadol i'ch helpu i asesu'ch busnes yng nghydestun newid hinsawdd.

Er bod pob menter bwyd a diod yn unigryw, rydym yn gobeithio trwy ddewis a gweithredu ar y modiwlau sydd fwyaf perthnasol i'ch busnes chi, y byddwch yn creu fframwaith i benderfynu ar yr addasiadau sydd eu hangen i wneud eich busnes yn fwy cydnerth i newid hinsawdd, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r modiwlau hyfforddiant wedi'u strwythuro yn y ffordd ganlynol:

## **Modiwl 1: Cyflwyniad i Addasu i Newid Hinsawdd**

### **Module 2: Cyflwyno Risg a Rheoli Newid ac ymagwedd CCACCP**

(Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol)

## **Modiwl 3: Safleoedd a Mynediad**

## **Modiwl 4: Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd**

## **Modiwl 5: Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes**

## **Modiwl 6: Ystyriaethau Cyllid a Chyfreithiol**

## **Modiwl 7: Staff a Darparwyr Gwasanaethau**

## **Modiwl 8: Cwsmeriaid a Defnyddwyr**


Trwy gydol y modiwlau, byddwch yn dod o hyd i enghreifftiau, cyfeiriadau a dolenni at restrau gwirio a thempledi golygadwy i'ch helpu i asesu a gweithredu'r newidiadau dymunol yn eich busnes.

# Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi a'r canllawiau cam wrth gam

Trwy glicio ar y dolenni a ddangosir trwy gydol y modiwlau hyfforddiant, gallwch gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi neu'r canllawiau cam wrth gam o'ch dewis chi.

Bydd y ddolen yn mynd â chi at leoliad Dropbox lle bydd gennych chi nifer o ddewisiadau:

1. Os oes gennych chi gyfrif Dropbox eisoes, gallwch chi fewngofnodi i hwn.
2. Os ydych chi'n dymuno creu cyfrif Dropbox, mae'r opsiwn hwn ar gael i chi.
3. Os ydych chi'n syml yn dymuno cael mynediad at y ddogfen, cliciwch ar y saeth Lawrlwytho i'w lawrlwytho i'ch dyfais.



# Staff a Darparwyr Gwasanaethau

Mae eich staff yn ased hollbwysig i'ch busnes a hebddynt bydd eich gweithrediadau a'ch gwerthiannau'n arafu ac yn peidio yn gyflym iawn. Wrth gwrs, dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974<sup>1</sup>, mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal i weithwyr hefyd, felly mae gennych chi rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried unrhyw risgiau i'ch staff yng nghyd-destun iechyd a diogelwch.

Gall newid hinsawdd gael effaith negyddol ar eich tîm mewn sawl ffordd. Gallai gwneud addasiadau leihau'r effeithiau hyn, gan ganiatáu i chi adfer ar ôl digwyddiadau hinsawdd annisgwyl yn gynt ac yn fwy effeithiol. Trwy ddangos eich ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gallech hybu enw da eich cwmni am fod yn gyflogwr da, gan eich helpu i gadw eich staff profiadol a denu talent newydd i dyfu eich busnes.

Mae'n debyg mai eich darparwyr gwasanaethau yw'r adnoddau dynol allweddol eraill rydych yn dibynnu arnynt, a gallai digwyddiadau hinsawdd gael effaith negyddol arnynt nhw, hefyd. Byddwn hefyd yn ystyried y cyfranwyr pwysig hyn i'ch busnes yn y modiwl hwn.

Yn anochel, bydd rhywfaint o orgyffwrdd â rhai o'r gweithgareddau rydych wedi ymgymryd â nhw eisoes yn y pynciau blaenorol, felly byddwch mewn sefyllfa wych i adeiladu ar y gwaith da hwnnw.

Wrth feddwl am y berthynas rhwng eich staff a'r hinsawdd, mae'n debyg y bydd dwy brif ystyriaeth:



Iechyd a lles eich staff



Argaeledd eich staff i weithio i chi

## Ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd tuag at les ac argaeledd staff

Byddai ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn cynnwys ystyried a allai digwyddiadau tywydd eithafol effeithio'n fwy negyddol ar rai aelodau staff ac archwilio sut y gellid atal neu leihau'r effeithiau hyn.

Efallai yr hoffech drafod gwendidau posibl gyda'ch staff a chydweithio â'ch gilydd i nodi polisïau, camau ataliol ymarferol a chynlluniau gweithredu y gallech eu rhoi ar waith.

Os byddwch yn penderfynu casglu gwybodaeth bersonol a'i chofnodi i helpu â'ch cynlluniau lles staff, cofiwch y bydd angen i chi gydymffurfio â rheoliadau GDPR2 a pharchu'r ffaith y gallai rhai staff fod eisieu rhoi gwybodaeth mewn modd cyfrinachol, neu beidio â chael eu cynnwys.

Ym Modiwl 3 ynglŷn â Safleoedd a Mynediad, cawsoch eich annog i gynnal ymarfer mapio o'r prif lwybrau y mae eich staff yn eu defnyddio i gyrraedd eich safle, felly bydd hyn yn ddefnyddiol eto nawr.


Gallech hefyd ddefnyddio'r templed y gellir ei olygu i ehangu'r mapio hwn i ystyried y dull teithio y mae'ch staff yn ei ddefnyddio, er enghraifft:

- Defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus
- Cydweithwyr yn rhannu ceir
- Staff sy'n cerdded neu'n beicio i'r gwaith

[Cliciwch yma am dtempld mapio llwybrau mynediad y gellir ei olygu](#)

Bydd yr olwg ehangach hon yn eich helpu i ddeall, rhagweld ac ymateb yn well i unrhyw argyfyngau a all ddigwydd.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru<sup>3</sup> wedi creu'r ffeithlun defnyddiol hwn sy'n amlygu effeithiau posibl newid hinsawdd ar iechyd a lles gwahanol grwpiau o bobl.



Amlinelliad gwybodaeth wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd caredig gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Cydnabyddiaeth:  
Edmonds, N., a Green, L. (2023) Newid Hinsawdd yng Nghymru: Aseiad Effaith ar Iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Nodi staff sy'n fregus o ran yr hinsawdd

A allai'ch busnes fod ag aelodau staff sy'n fwy bregus i effeithiau niweidiol digwyddiadau hinsawdd? Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cyhoeddi [arweiniad ar weithwyr bregus](#).

Gadewch i ni archwilio rhai rhesymau posibl pam y gallai hyn fod yn wir a gallwch ddefnyddio'r ddolen i fynd at dempled y gellir ei olygu, lle gallwch ychwanegu eich canfyddiadau eich hun a chamau gweithredu awgrymedig.

Gallai hyn eich helpu i adolygu a chynllunio ar yfer y digwyddiadau posibl hyn a chefnogi eich staff.

[Cliciwch yma am dempled bregusrwydd staff a chamau gweithredu y gellir ei olygu](#)

| Nodweddion Staff                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Cefnogi Staff sy'n Agored i Niwed                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Staff sy'n gyrru at ddibenion busnes: fel gyrwyr cludo nwyddau, timau gwerthiannau a datblygu cynhyrchion newydd sy'n ymweld â chwsmeriaid, staff sy'n teithio at ddibenion hyfforddiant a gyrwyr wagenni fforch godi ar y safle. Gallent fod mewn perygl mewn tywydd eithafol, gan gynnwys eira, glaw trwm neu wres eithafol.</p>                                                                                                                               | <p>Fel cyflogwr, mae eich rhwymedigaethau iechyd a diogelwch i'ch staff yn ymestyn i'r ffordd pan fyddant yn gyrru ar ran eich cwmni.</p> <p>Dylech ddiweddarau eich polisi "Gyrru wrth ymgymryd â busnes sy'n gysylltiedig â'r cwmni" â'ch fersiwn eich hun o'r rhestr wirio gyrru diogel sy'n ymwybodol o'r hinsawdd ar gyfer staff sy'n gyrru oherwydd gwaith neu i'r gwaith. Mae rhestr wirio enghreifftiol wedi'i chynnwys yn y modiwl hwn.</p> |
| <p>Gallai staff sy'n gweithio y tu allan fod mewn perygl mewn tywydd eithafol, hefyd.</p> <p>Gallai'r rhain gynnwys y rhai sy'n gweithio y tu allan sy'n gofalu am offer a chyfleusterau allanol fel seilos, tanciau braster neu offer elifiant, yn cynnal a chadw arwynebau allanol a ffiniau perimedr, yn monitro pwyntiau rheoli plâu, ymweld â safleoedd cyflenwyr amaethyddol neu weithgareddau eraill yn yr awyr agored fel patrolio gan dimau diogelwch.</p> | <p>Ystyriwch ba bolisiâu sydd gennych yn ymwneud â diogelwch a lles staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.</p> <p>A oes angen i chi ddiweddarau eich polisiâu iechyd a diogelwch neu'ch arferion cyflogaeth i gynnwys egwylliau amlach a allai gael eu sbarduno gan dywydd penodol?</p> <p>A yw'r camau hyn yn cael eu cyfleu'n dda i aelodau'ch tîm?</p>                                                                           |
| <p>Gall staff sy'n gweithio mewn ardaloedd â thymereddau uchel neu isel, fel gweithio ger mynedfeydd ac allanfeydd offer popty neu mewn rhewgelloedd storio, fod yn fwy agored i eithafion hinsawdd.</p>                                                                                                                                                                                                                                                            | <p>A allwch chi nodi camau i sicrhau eu lles yn ystod amodau hinsawdd anffafriol?</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |

Allai staff sydd â chyflyrau meddygol fel asthma, diabetes, clefyd gwair neu bwysedd gwaed uchel, neu'r rhai sydd â namau ar symudedd, golwg neu glyw, gael eu heffeithio'n benodol yn ystod rhai amodau tywydd.

Gall pobl â chyflyrau anadlu neu'r galon, diabetes, epilepsi neu bwysedd gwaed isel neu uchel ddioddef pan fydd ansawdd yr aer yr wael.

Gall staff sy'n profi digwyddiadau cyfnod bywyd, fel beichiogrwydd neu'r menopos, weld bod eu symptomau'n gwaethgu yn ystod tywydd poeth

Ydych chi'n gwybod a oes gan aelod staff penodol gyflwr iechyd neu'n profi digwyddiad cyfnod bywyd a all eu gwneud yn fwy bregus i ddigwyddiadau hinsawdd? Os felly, dylech gwblhau Asesiadau Risg Gweithwyr Bregus.

Pa amodau yn gysylltiedig â'r hinsawdd a all beri iddynt deimlo'n fwy anhwylyd? Pa gamau allech chi eu cymryd i fyddai'n atal neu'n lleihau unrhyw effeithiau andwyol?

Efallai na fydd staff sydd â phroblemau symudedd neu nam ar y golwg yn gallu cyrraedd y gwaith mewn eira, rhew neu law trwm.

I ba aelodau staff y gallai hyn fod yn berthnasol? A ydych wedi cwblhau Asesiad Risg Gweithwyr Bregus? A allent weithio gartref dros dro? A ellid defnyddio cerbydau 4x4 i'w casglu a'u cludo adref? A allech addasu eich oriau gwaith i ganiatáu amseroedd cymudo arafach?

Efallai y bydd angen cynllun personol gadael mewn argyfwng ar staff sydd â phroblemau symudedd, rhag ofn y bydd digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Efallai na fydd aelod staff â phroblemau symudedd yn gallu defnyddio'r llwybrau gadael mewn argyfwng dynodedig ac efallai y bydd angen cymorth arnynt, yn enwedig os yw'r llwybr yn cynnwys grisiau. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn categoreiddio pobl ag anableddau yn weithwyr bregus ac felly mae angen asesiadau risg unigol arnynt.

Efallai y bydd angen i staff sydd â chyfrifoldebau gofalu gymryd amser ychwanegol i ffordd er mwyn sicrhau bod y rhai dan eu gofal yn ddiogel ac yn cael gofal os bydd digwyddiadau hinsawdd annisgwyl yn digwydd.

Efallai y bydd ysgolion yn cau neu bydd gwasanaethau gofal cartref yn methu cyrraedd cleientiaid hŷn, sy'n golygu bod angen i'ch staff gamu i'r adwy. A allai cau ysgolion olygu na fydd staff yn dod i'r gwaith? Efallai y dylech ystyried sut gwnaethoch chi neu fusnesau eraill ymdopi yn ystod pandemig Covid-19 a sut y gellir rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith?

Gallai staff y mae eu cartrefi wedi'u difrodi neu eu gwneud yn anaddas i fyw ynddynt oherwydd digwyddiadau hinsawdd annisgwyl fod dan straen sylweddol ac yn byw bywydau aflonydd, a gallai fod angen cefnogaeth arnynt ar gyfer eu lles meddyliol a chorfforol.

Efallai bod staff yn y sefyllfaoedd hyn yn ceisio adfer eu cartref i gyflwr sy'n addas i fyw ynddo neu'n byw mewn llety dros dro neu'n "cysgu ar y sofa" yn nhai ffrindiau a theulu hyd yn oed. A oes ffyrdd y gallech chi eu cynorthwyo'n ymarferol neu helpu eu hiechyd meddwl?

A allai staff bregus weithio o bell os nad yw'n bosibl cyrraedd y safle?

Bydd cynllunio cefnogaeth neu'r seilwaith y byddai ei angen ar staff i weithio o bell yn cynorthwyo i roi eich cynllun parhad busnes ar waith.

Ystyriwch sut byddwch yn cefnogi lles staff pan fyddant yn gweithio o bell.

Gwnewch yn siŵr fod eich "Polisi gweithio o bell" yn gyfredol ac y gellir ei roi ar waith yn gyflym.



Cafodd archfarchnad Morrisons yn Aberystwyth ei gorlifo gan afon Rheidol, a oedd wedi chwyddo ar ôl deuddydd o law trwm. Gyda llanw uchel hefyd yn gorfodi'r dyfroedd yn ôl, torrodd yr afon ei glannau gan orlifo ardaloedd isel o siopau a thai yn yr ardal. Ffynhonnell: Alamy

# Ffocws ar: Gyrru mewn tywydd heriol

Gall teithio fod yn heriol mewn tywydd gwael ac mae llawer o staff yn teithio ar gyfer gwaith, fel gyrwyr cludo nwyddau, cynrychiolwyr gwerthu neu'r rhai sy'n symud rhwng safleoedd. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau diogelwch cyflogeion sy'n gyrru ar gyfer eu gwaith. Felly, mae'n hanfodol asesu a lleihau'r risgiau i'r gyrwyr hyn. Mae'r [Swyddfa Dywydd](#), [Traffig Cymru](#) a sefydliadau moduro fel [RAC](#), [AA](#) ac [Institute of Advanced Motorists](#) yn cynnig cyngor ymarferol ar yrru mewn tywydd garw. Dylech ddiweddarau eich polisi 'Gyrru wrth ymgymryd â busnes sy'n gysylltiedig â'r cwmni' â 'rhestr wirio ar gyfer gyrru diogel sy'n ymwybodol o'r hinsawdd' i atgoffa staff i baratoi ar gyfer amodau gwael ac arfer gorau. Mae anfon awgrymiadau ar ddechrau'r gaeaf neu yn ystod cyfnodau o dywydd poeth yn dangos eich ymrwymiad i'w hiechyd a lles.


Mae Traffig Cymru yn diweddarau ei gyngor i adlewyrchu'r tymor cyfredol.  
Dyma enghraifft o restr wirio:



| Gofal cyffredinol am gerbydau                                                              | Cyn eich taith                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Wrth yrru                                                                                                                                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwnewch yn siŵr y caiff eich cerbyd ei gynnal a chadw yn unol â'r amserlen.                | Cynlluniwch eich taith: gwiriwch ddiweddariadau traffig ac amserlenni gwaith ffordd cyn teithio.                                                                                                                                                                                                                                  | Gyrrwch yn unol â'r tywydd, gan ganiatáu pellter stopio ychwanegol mewn amodau gwael.                                                            |
| Gwnewch yn siŵr fod eich batri mewn cyflwr da.                                             | Caniatewch fwy o amser i gyrraedd pen eich taith yn ddiogel os disgwylir tywydd gwael.                                                                                                                                                                                                                                            | Byddwch yn effro: cymerwch seibiant os ydych yn teimlo'n flinedig.                                                                               |
| Gwiriwch fod sychwyr eich ffenestr flaen yn gweithio'n iawn.                               | Paciwch becyn gaeaf yn ystod misoedd oer: <ul style="list-style-type: none"><li>• Crafwr iâ a dadrewydd</li><li>• Tortsh a batris sbâr</li><li>• Blancedi cynnes</li><li>• Sbectol haul</li><li>• Gwifrau cyswllt</li><li>• Rhaw</li><li>• Esgidiau gwrth-ddŵr/cynnes</li><li>• Pecyn cymorth cyntaf</li><li>• Dŵr yfed</li></ul> | Rhowch sylw arbennig i arwyddion ffordd; gallent fod yn rhoi gwybodaeth newydd bwysig am amodau neu wyriadau o'ch blaen.                         |
| Gwiriwch fod y goleuadau a'r cyfeirwyr yn gweithio a'u sychu'n lân yn rheolaidd.           | Sicrhewch fod eich ffôn wedi'i wefru'n llawn a bod gennych gebl gwefru yn y cerbyd.                                                                                                                                                                                                                                               | Cadwch olwg am arwyddion negeseuon cyfnewidiol sy'n dangos amodau'r ffordd, damweiniau neu gyfyngiadau cyflymder.                                |
| Gwiriwch fod gan y teiars wadn digonol a'u bod o fewn y terfynau cyfreithiol.              | Lawrlwythwch ap <a href="#">what3words</a> i'ch ffôn i nodi'ch lleoliad yn fanwl er mwyn i gymorth brys ddod o hyd i chi.                                                                                                                                                                                                         | Os byddwch yn gweld X coch ar arwydd lân, mae'r lân honno ar gau, felly symudwch i lân sydd ar agor i fod yn gyfreithlon ac yn ddiogel.          |
| Cadwch y ffenestr flaen a'r ffenestri'n lân a llenwch y botel golchi â hylif golchi sgrin. | Paciwch ddiodydd hydradu a gwiriwch fod y cyfleusterau gwresogi / aerdymheru yn gweithio.                                                                                                                                                                                                                                         | Ail-lenwch â thanwydd cyn i'ch lefel tanwydd ostwng o dan chwarter llawn, fel bod gennych ddigon o danwydd bob amser rhag ofn y bydd anawsterau. |

Mae nifer o gamau gweithredu defnyddiol eraill y gallech eu cymryd yn ymwneud â'ch staff i baratoi a chynyddu cydnerthedd eich busnes yn erbyn digwyddiadau hinsawdd. Gadewch i ni ystyried y rhain nesaf.

## Camau gweithredu hinsawdd sy'n gysylltiedig â staff



### Cysylltiadau brys staff

Un cam pwysig y gallech ei roi ar waith yn syth fyddai nodi staff allweddol ar gyfer gweithrediadau adfer a chreu dogfen sy'n nodi sut i gysylltu â nhw mewn argyfwng.

Bydd manylion cyswllt brys staff yn un o sawl rhestr gyswllt allweddol y bydd yn ddefnyddiol i chi ei chreu yn rhan o'ch ymagwedd busnes sy'n ymwybodol o'r hinsawdd.

Beth am ddefnyddio'r templed y gellir ei olygu i benderfynu pwy yw'r aelodau staff allweddol hyn a sicrhau bod eu manylion ar gael, hyd yn oed os bydd mynediad i'r safle yn cael ei amharu?

[Cliciwch yma am dempled cysylltiadau brys y gellir ei olygu](#)

Mae angen i'ch rhestr gael ei diweddarau a bod ar gael yn rhwydd i ymatebwyr cyntaf ar y safle mewn argyfwng, ynghyd ag unrhyw un a all fod yn cyfarwyddo gweithrediadau o leoliad arall yn ystod yr argyfwng.

Meddyliwch am ba sgiliau y gallai fod eu hangen arnoch mewn argyfwng; bydd hyn yn eich helpu i nodi pa aelodau staff allweddol sydd eu hangen i ddelio â'r argyfwng. Pwy all eich helpu i leihau difrod neu berygl i fywyd a chynorthwyo i adfer eich busnes cyn gynted â phosibl?

Os yw'n ddiogel ac yn bosibl cyrraedd eich safle yn gorfforol o hyd ar ôl digwyddiad hinsawdd annisgwyl, gallai aelodau staff penodol fod yn hanfodol o ran cymryd camau cyflym. Er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt ddiogelu asedau hollbwysig, diffodd cyfleustodau, diogelu sylweddau peryglus ac asesu difrod ar gyfer hawliadau yswiriant.

Byddwch eisiau sicrhau bod eich rhestr cysylltiadau yn cyd-fynd ag anghenion penodol eich busnes, ond dyma ychydig syniadau i chi ddechrau arni:

**Peirianwyr:** i ddatgysylltu a symud eich asedau hanfodol, nodi ac asesu maint y difrod ac awgrymu camau gweithredu i atal, lleihau neu fynd i'r afael â difrod.

**Gyrwyr wagenni fforch godi:** i symud stoc neu asedau hanfodol i leoliadau diogel neu eu symud i wella mynediad.

**Rheolwr adnoddau dynol:** i orchwyllo lles a chyfathrebu â staff.

**Rheolwr cyllid:** i fonitro a rheoli effeithiau parhaus ar argyfwng ar gyllid y busnes.

**Staff diogelwch:** i reoli mynediad er diogelwch staff, sylw gan y cyfryngau neu i ddiogelu asedau rhag cael eu dwyn.

**Rheolwyr technegol a hylendid:** i asesu materion yn ymwneud â diogelwch bwyd, argymell sut i ddelio â halogiad a rhyddhau'r safle'n gadarnhaol ar gyfer cynhyrchu.

**Staff TG neu ddarparwyr TG allanol:** i sicrhau y gallech barhau i gyfathrebu a chefnogi staff sy'n gweithio o bell.

**Tîm gwerthu:** i sicrhau y caiff perthnasoedd â chwsmeriaid eu diogelu trwy roi'r cynllun cyfathrebu â chwsmeriaid ar waith.



Gweithwyr Cyngor Sir Ddinbych yn ymateb i rybudd llifogydd trwy greu amddiffynfeydd â bagiau tywod ar gyfer adeiladau lleol ar Coast Road yn y Rhyl, gogledd Cymru. Awdur: Peter Byrne - Ffynhonnell: Alamy



# Arwain Staff

Mae rheoli newid yn sgil rheoli sylfaenol sydd yr un mor berthnasol i roi addasiadau i'r hinsawdd ar waith yn eich busnes. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau newid llwyddiannus, felly gadewch i ni edrych ar fframwaith defnyddiol o'r enw "arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu".

## Arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu

Datblygodd John Adair, sef awdur blaenllaw ar arweinyddiaeth, y dull arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu fel model ymarferol i ddisgrifio'r hyn y mae angen i arweinwyr ei wneud a sut mae angen iddynt wneud hynny.

Mae'r ddamcaniaeth wedi'i seilio ar dri chylch sy'n gorgyffwrdd, y mae eu helfennau'n cael eu hystyried yn bwysig i'r her arweinyddiaeth ar wahân, ond yn fuddiol i'w gilydd, oherwydd ni all un ohonynt gael ei chyflawni heb y lleill.

A chithau'n arweinydd busnes, bydd angen i chi gynnal cydbwysedd rhwng anghenion y tri maes os ydych am gyflawni eich amcanion yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu: newid hinsawdd

### Anghenion y dasg


Yr anghenion a brofir gan y grŵp i gyflawni'r amcanion:

- Diffiniad o'r dasg
- Cynllunio
- Dyrannu gwaith ac adnoddau
- Rheoli safonau – ansawdd, costau, amser
- Adolygu perfformiad yn erbyn y cynllun

### Anghenion y grŵp

Yr angen i gydweithio'n foddhaol fel tîm

- Pennu safonau'r grŵp
- Cynnal strwythur a disgyblaeth y grŵp
- Ymdeimlad o dîm a chydlyniant
- Anogaeth a chymhelliant
- Cyfathrebu'n eglur
- Hyfforddiant a datblygiad grŵp



### Anghenion yr unigolyn

Anghenion pob unigolyn i gael cydnabyddiaeth a chyflawni nodau personol:

- Rhoi sylw i broblemau unigol
- Cydnabod amcanion a gofynion unigol
- Canmoliaeth
- Cydnabod cryfderau a gwendidau
- Hyfforddiant a datblygiad

## Y fframwaith arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu

Bydd cymhwyso'r fframwaith arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu i weithgareddau rheoli newid sy'n deillio o'r ymagwedd tuag at eich busnes sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn helpu i sicrhau y caiff ei rhoi ar waith a'i mabwysiadu'n llwyddiannus.


# Cynllun Rhaeadr Gyfathrebu

Mae bod â chynllun rhaeadr gyfathrebu yn ffordd bwysig i reoli gwybodaeth mewn argyfwng.

Gall helpu i atal sibrydion niweidiol ac atal gwybodaeth anghywir neu ddyfaliadol rhag cael ei rhannu. Mae'r cynllun hefyd yn hidlo ac yn rheoli pa ffeithiau y gallech fod am eu rhannu â chwsmeriaid, y cyfryngau, yn ogystal â'ch staff.

Gyda'r fformat rhaeadru, mae'r wybodaeth yn llifo allan, gyda phobl ddynodedig yn rhannu'r wybodaeth â grŵp diffiniedig o gysylltiadau i'w hysbysu a rhoi sicrwydd iddynt, fel sydd i'w weld yn y diagram hwn.

## Creu eich cynllun rhaeadr gyfathrebu



Mae'r rhestr wirio isod yn awgrymu rhai ystyriaethau a allai eich helpu i greu eich cynllun rhaeadr gyfathrebu ar gyfer staff.

Mae cyfathrebu effeithiol â chwsmeriaid hefyd yn bwysig iawn; bydden yn edrych yn fanylach ar hyn ym Modiwl 8: Cwsmeriaid a Defnyddwyr.

# Rhestr wirio cynllunio rhaeadr gyfathrebu

|       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|-------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cam 1 | Pwy fydd yn cyfleu bod digwyddiad yn digwydd, yn y lle cyntaf? Diffiniwch yr arweinydd/ arweinwyr cyfathrebu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Cam 2 | <p>Pwy fydd yn drafftio cynnwys y cyfathrebiad?</p> <p>Bydd hyn yn pennu'r "polisi swyddogol" o ran pa wybodaeth ddylai fod ar gael i'r cyhoedd ac yn helpu i atal darlun camliwiedig.</p>                                                                                                                                                                                                                                               |
| Cam 3 | <p>Sut dylai'r wybodaeth hon gael ei chyfleu i aelodau staff? Pwy fydd yn cyfathrebu â pha grwpiau o staff?</p> <p>Pwy sydd angen gwybod beth, pryd a sut fyddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb?</p>                                                                                                                                                                                                                            |
| Cam 4 | <p>Pa staff sy'n gweithio i ffwrdd o'r safle neu'n gweithio gartref y dylid cysylltu â nhw i wirio eu bod yn ddiogel neu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt?</p> <p>Pwy fydd yn gwneud hyn?</p>                                                                                                                                                                                                                                        |
| Cam 5 | <p>A oes gennych fuddsoddwyr allweddol, sefydliadau ariannol neu gyrff grant y mae angen i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt? Pwy ddylai gyfathrebu â phwy? A ddylai hyn fod wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, drwy'r e-bost neu ddatganiad i'r wasg?</p> <p>Beth ddylai'r cyfathrebiadau hyn ei ddweud?</p>                                                                                                                             |
| Cam 6 | <p>Pwy fydd yn cyfathrebu â pha rai o'ch cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau? A ddylai hyn fod wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, drwy'r e-bost neu drwy ddatganiad i'r wasg? Beth ddylent ei ddweud? Pa awdurdod sydd ganddynt i ohirio neu aildrefnu danfoniadau ac ymweliadau gwasanaeth? Sut byddant yn ateb cwestiynau a allai fod gan gyflenwyr?</p> <p>Sut bydd cyflenwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r sefyllfa esblygu?</p> |
| Cam 7 | Beth yw eich dull o ymdrin ag unrhyw ymholiadau gan y cyfryngau ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd i'ch busnes?                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Cam 8 | <p>Pwy fydd yn ateb ymholiadau'r wasg neu'n rhyngweithio ag unrhyw aelodau o'r wasg sy'n cyrraedd y safle? Sut byddwch yn gofyn i staff gyfeirio at y digwyddiad ar gyfryngau cymdeithasol?</p> <p>Sut byddwch chi'n osgoi postiadau personol yn gwrthdaro â'r wybodaeth rydych yn ei rhannu?</p>                                                                                                                                        |

# Hyfforddiant Staff

Y gobaith yw bod cymryd rhan yn yr Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnherthedd hwn wedi bod yn ddefnyddiol o ran eich cyflwyno i wahanol fathau o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â'r hinsawdd a all ddigwydd a'u goblygiadau ar gyfer eich busnes, neu atgyfnerthu eich ymwybyddiaeth ohonynt.



Wrth i chi ddatblygu ymagwedd eich busnes sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, byddwch yn cael y manteision mwyaf trwy gynnwys eich staff a chyfathrebu â nhw, ac mae darparu hyfforddiant yn ffordd ardderchog o gyflawni hyn.

Gall hyfforddiant staff helpu i atgyfnerthu eich ymagwedd ragweithiol tuag at risgiau a chyfleoedd yr hinsawdd ymhlith eich tîm. Bydd dod yn wybodus am faterion hinsawdd yn galluogi aelodau'ch tîm i gyfrannu'n effeithiol at eich cynllunio. Bydd y cynhwysiant hwn yn eu hannog i fuddsoddi'n llawn mewn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl mewn argyfwng hinsawdd a chefnogi unrhyw gyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd rydych yn mynd ar eu trywydd.

## Hyfforddi eich staff i greu diwylliant sy'n ymwybodol o'r hinsawdd

Y tu hwnt i'r "beth" y tu ôl i unrhyw benderfyniadau a wnewch y mae'r "sut rydyn ni'n gwneud pethau yn y fan hon", sy'n deillio o ddiwylliant eich cwmni. Nid yw diwylliant cadarnhaol yn deillio o un unigolyn nac un tîm hyd yn oed. I fod yn ddilys a chael effaith wirioneddol, mae angen i bawb, ar bob lefel o fewn cwmni, feithrin diwylliant.

Gall hyfforddiant gefnogi diwylliant sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn eich busnes gweithgynhyrchu bwyd a diod, gan helpu i hybu ymwybyddiaeth o'n hinsawdd sy'n newid yn gyflym am ymwreiddio'r meddylfryd hwn ym mhob rhan o'ch busnes a phob proses benderfynu.

Gallai hyfforddiant i ddod â'r tîm cyfan gyda chi ar y daith hon amrywio o addysgu uwch dîm rheoli llawn y busnes am y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, i feithrin "meddylfryd sy'n ddoeth o ran yr hinsawdd" ym mhob aelod o'r gweithlu.

Gallai elfennau allweddol o'ch Hyfforddiant Newid Hinsawdd gynnwys:

- Esbonio beth yw newid hinsawdd.
- Rhoi enghreifftiau o sut mae'n digwydd nawr, sut y rhagwelir iddo gael effeithiau cynyddol a phwysleisio ei fod yn effeithio ar bawb.
- Dangos sut mae eithafion yn yr hinsawdd, boed yn ddigwyddiadau annisgwyl neu'n straen sy'n datblygu'n araf, yn peri risgiau, bygythiadau a chyfleoedd.
- Amlinellu pam, fel busnes, rydych yn dwyn ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd.
- Archwilio beth mae newid hinsawdd yn ei olygu i'ch busnes unigol eich hun a sector ehangach y diwydiant bwyd a diod.
- Rhannu enghreifftiau o sut gallai digwyddiadau hinsawdd effeithio ar rôl pob unigolyn.
- Annog syniadau, awgrymiadau a chyfraniadau rhagweithiol i'r broses a'u cyfranogiad mewn monitro a chadw gweithgareddau'n berthnasol, yn gyfredol ac yn effeithiol.
- Amlygu sut gall pawb gyfrannu at y prosesau adolygu risgiau, cynllunio a gwneud eich addasiadau dewisol i feithrin cydnherthedd y busnes.

Ar ôl darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r hinsawdd, byddwch mewn sefyllfa i gynnwys eich tîm, a fydd yn dod â gwybodaeth, mewnwelediad a safbwyntiau newydd ac yn cryfhau'r cynlluniau y byddwch yn eu rhoi ar waith. Beth am ofyn am eu mewnbwn ac ychwanegu gwerth ar unrhyw rai o'r dadansoddiadau SWOT y byddwch yn ymgymryd â nhw?

Bydd unrhyw gynlluniau y byddwch yn eu datblygu a'u rhoi ar waith yn fwy effeithiol os bydd rheolwyr, arweinwyr timau a phersonél allweddol eraill wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o beth i'w wneud os bydd digwyddiad yn digwydd. Yn yr un modd ag yr ydych yn cynnal ymarferion tân, gallech ymarfer ar gyfer sefyllfaoedd eraill â risg uchel yr ydych wedi'u nodi yn eich asesiad risg.



Beth am gynnal ymarfer mewnlol o'ch ymarfer rhaeadr gyfathrebu wedi i chi gasglu'ch holl gysylltiadau cyfredol?

Fel mantais ychwanegol, efallai y byddwch yn canfod bod tynnu sylw at y gwaith da y mae'ch cwmni'n ei wneud o ran addasu i'r hinsawdd yn rhoi hwb i'ch enw da fel cyflogwr, hefyd. Wrth i ymwybyddiaeth o'r hinsawdd gynyddu ymhlith y cyhoedd, gallai hyn eich helpu i gadw teyrngarwch eich staff cyfredol a denu cyflogeion talentog newydd.



Amharwyd yn ddifrifol ar gysylltiadau trafnidiaeth pan achosodd glaw trwm dirfithriad yn Ninas Rhondda yn Rhondda Cynon Taf. Ataliodd hyn teithwyr rhag gallu teithio rhwng Porth a Threherbert nes bod modd symud dros 150 tunnell o falurion oddi ar y trac. Atgynhyrchwyd y ddelwedd â chaniatâd caredig gan Network Rail.

# Darparwyr Gwasanaethau

Mae nodi eich darparwyr gwasanaethau allweddol hefyd yn bwysig i barhad eich busnes.

Efallai eich bod yn contractio cymorth neu sgiliau nad oes gennych yn fewnol gan ystod amrywiol o fusnesau. Dyma rai enghreifftiau:



TG a Gwasanaethau Digidol



Gwasanaethau Logisteg



Dylunio Graffeg



Gwasanaethau Glanhau a Hylendid




Gwasanaethau Peirianeg a Gwneuthuriad



Ailgylchu a Rheoli Gwastraff



Gwasanaethau Rheoli Plâu



Asiantau/ Dosbarthwyr Allforio



Gwasanaethau Labordy



Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol

Dylech ystyried:

- Beth fyddai'n digwydd pe byddai'ch darparwyr gwasanaethau allweddol yn dioddef eu digwyddiad hinsawdd annisgwyl eu hunain a fyddai'n golygu na allent gynnal eu gwasanaethau i chi?
- Pa ddarparwyr gwasanaethau allweddol fyddai eu hangen ar gyfer eich gweithgareddau adfer pe byddech yn dioddef digwyddiad hinsawdd annisgwyl a sut byddech yn cysylltu â nhw'n gyflym mewn argyfwng?

Dylai'r cwestiwn cyntaf gael ei gynnwys yn eich asesiad risg i benderfynu ar yr effaith pe byddai pob un o'r darparwyr yn methu cynnig eu gwasanaethau arferol.

Lle bernir bod tebygolrwydd ac effaith y senario hwn yn ganolog i uchel, pa gynlluniau wrth gefn y gallai fod angen i chi eu hystyried a'u rhoi ar waith?

Os bydd digwyddiad hinsawdd annisgwyl wedi achosi aflonyddwch eang yn eich rhanbarth neu'r tu hwnt, gallai'r busnes sy'n cysylltu â'i ddarparwyr gwasanaethau am gymorth gyflymaf elwa trwy fod yn "nes at flaen y ciw" i gael cymorth hanfodol a deunyddiau ar gyfer atgyweiriadau. Felly, gallai fod â manylion cyswllt cyfredol ar gyfer eich darparwyr gwasanaethau wrth law fod yn gymorth mawr o ran cyflymu eich adferiad.

Pan fyddwch yn mapio effeithiau digwyddiadau'r tywydd yn effeithio ar lwybrau mynediad allweddol, cofiwch gynnwys llwybrau i'r safle sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwyr gwasanaethau allweddol.

Efallai y byddwch hefyd yn penderfynu bod rhai gwasanaethau allweddol mor bwysig neu'n ddigon cymhleth i gyfiawnhau cael eu rhestrau gwirio parhad busnes eu hunain; meysydd fel eich seilwaith TG a digidol, er enghraifft?

# Yn ddod nesaf:

Bydd Modiwl 8 yr Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd yn ystyried sut mae newid hinsawdd yn cyflwyno bygythiadau a chyfleoedd yn eich perthnasoedd â'ch cwsmeriaid a'r rhai sy'n defnyddio'ch cynhyrchion yn y pen draw. Mae'r modiwl yn awgrymu rhai ffyrdd y gallai'ch busnes addasu i leihau risgiau a hybu'r manteision a all ddod yn sgil newid hinsawdd, nawr ac yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ac yn gyfredol ar adeg ysgrifennu. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am ddolenni i wefannau allanol a allai fod wedi torri dros amser.

Gorffennaf 2025

# Cyfeiriadau

- <sup>1</sup> Llywodraeth y DU: [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#)
- <sup>2</sup> Llywodraeth y DU: [Diogelu Data](#)
- <sup>3</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru [Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd](#)